oní heuír ní feoír

YSGOL BRO TEIFI

Polisi Asesu, Cofnodi ac Adrodd

CREWYD	Medi 2016
CREWYD GAN	GE
CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL	Medi 2016
DYDDIAD ADOLYGU	Medi 2019
ADDASWYD	Medi 2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad

1.1. Amcanion y Polisi

1.2. Polisïau Cysylltiedig

2. Rhesymwaith

2.1. Pwrpas asesu, cofnodi ac adrodd

2.2. Egwyddorion sylfaenol asesu, cofnodi ac adrodd

3. Asesu yn Ysgol Bro Teifi

3.1. Asesu ar gyfer dysgu (ffurfiannol)

3.2. Asesiad o'r dysgu (crynodol)

3.2.1. Asesu yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2

3.2.2. Asesu yng Nghyfnod Allweddol 3

3.2.3. Asesu yng Nghyfnodau Allweddol 4 ac Ôl-16

3.3. Canllawiau arfer dda ar gyfer marcio llyfrau / ffeil disgybl

4. Gosod Targedau

4.1. Targedau Ysgol Gyfan (UDA) (Crynodol)

4.2. Targedau Adrannol (P.A) (Crynodol)

4.3. Targedau disgyblion unigol (Crynodol)

4.4. Data Asesu (Crynodol)

4.5. Targedau Ffurfiannol

5. Cofnodi

5.1. Cofnodi adrannol

5.2. Cofnodi ysgol gyfan

6. Monitro a Safoni

6.1. Gweithdrefnau Safoni a chymedroli CA3

6.2. Mynd i'r afael a thangyflawni

7. Adrodd

7.1. Cwblhau Adroddiadau

7.2. Adroddiadau Naratif Llythrennedd a Rhifedd

ATODIADAU

i) Amserlen asesu, adrodd a thracio (Addasu yn Flynyddol)

ii) Fframwaith Marcio ac Adborth

Polisi Asesu, Cofnodi ac Adrodd Ysgol Bro Teifi

1. Cyflwyniad

1.1 Amcanion y polisi

✓ I ddarparu fframwaith cytunedig a chyson i holl athrawon yr ysgol

✓ I ddatblygu agwedd cyson i asesu ar draws yr ysgol.

✓ Drwy weithredu'r polisi, hwyluso'r cynnydd a ddengys gan ddisgyblion yn eu dysgu.

✓ I sefydlu fframwaith ar gyfer asesu, monitro ac adrodd ar gynnydd a fydd o ddefnydd i holl rhanddeiliaid y broses sef y disgybl, y rhieni, yr athrawon, y cyfadrannau, y penaethiaid ffês yr uwch dim arwain a'r awdurdod addysg lleol.

1.2 Polisïau Cysylltiedig / Dogfennau Cysylltiedig

- Polisi Cwricwlwm - GE
- Polisi Rhifedd – Ionawr 2018 – ETh
- Polisi Llythrennedd – Ionawr 2018 - NLE
- Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol - Hydref 2018– CP
- Amserlen Asesu, Adroddiadau a Thracio – Medi 2018 – GE (diweddaru yn flynyddol)
- Trefniadau asesu statudol ar gyfer Diwedd Cyfnod Allweddol (Llywodraeth Cymru)

2. Rhesymwaith

2.1. Pwrpas asesu, cofnodi ac adrodd

✓ I helpu'r **disgyblion** i wybod beth maent yn gwneud yn dda a beth sydd angen iddynt i wneud er mwyn gwella.

✓ I hysbysu'r **athro** o effaith yr addysgu.

✓ I hysbysu'r **rhieni** ar gynnydd ei plentyn.

✓ I ddarparu gwybodaeth i **gyfadrannau** a fydd yn sail i benderfyniadau addysgol e.e. newid setiau; haenau.

✓ I helpu **cyfadrannau** i werthuso'r rhaglen ddysgu.

✓ I helpu'r **penaethiaid ffês** i fonitro cynnydd disgyblion.

✓ I alluogi'r **UDA** i osod targedau ysgol gyfan ac i fesur ychwanegiad at werth.

✓ I alluogi'r **UDA** a'r **Corff Llywodraethol** i adnabod cryfderau a meysydd i wella ar draws holl weithgareddau'r ysgol.

2.2 Egwyddorion Sylfaenol Asesu, Cofnodi ac Adrodd yn Ysgol Bro Teifi

- ✓ Bydd pob athro yn dilyn egwyddorion sylfaenol y polisi asesu, chofnodi ac adrodd ysgol gyfan. Bydd hyn yn datblygu cysondeb yn yr asesu o fewn ac ar draws adrannau ac ar draws yr ystod oedrannau.

- ✓ Mae asesu yn rhan annatod o'r dysgu ac addysgu – mae'n broses barhaus a dylai fod yn rhan integredig o'r cynlluniau gwaith.

- ✓ Bydd yr amcanion asesu yn deillio o ofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol, y byrddau arholi a'r Fframweithiau Trawsgwricwlaidd.

- ✓ Bydd athrawon yn gwneud defnydd o ddulliau crynodol a ffurfiannol wrth asesu. Bydd dulliau asesu ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu) wedi eu hymgorffori i mewn i bob gwers.

- ✓ Bydd athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i hunan asesu ac i asesu eu cyfoedion a hynny yn ôl meini prawf llwyddiant dealladwy a rennir gyda'r disgyblion.

- ✓ Bydd athrawon yn rhannu nodau ac amcanion y wers gyda'r disgyblion a hynny mewn ffordd sydd yn ddealladwy iddynt.

- ✓ Bydd athrawon yn asesu yn rheolaidd drwy waith cartref a gwaith dosbarth.

- ✓ Bydd athrawon o fewn ac ar draws cyfadrannau yn dilyn trefn gyffredin i farcio gwaith disgybl gan gynnwys llythrennedd a rhifedd a bydd yna peth dilyniant rhwng yr arferion oed cynradd a'r arferion oed uwchradd.

- ✓ Bydd pob athro yn defnyddio dull hylaw i gofnodi ac i fonitro cynnydd disgyblion yn eu pwnc. Byddant hefyd yn cofnodi cynnydd mewn bas data ysgol gyfan yn ôl y gofyn. Gwneir hyn ar system Building Blocks a SIMS ar gyfer disgyblion oed Cynradd ac ar system SIMS i ddisgyblion oed Uwchradd.

- ✓ Bydd athrawon yn asesu'n gadarnhaol er mwyn symbylu'r disgyblion a gwella'u cymhelliant.

- ✓ Bydd athrawon yn gosod deilliannau targed ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, lefelau targed ar ddechrau Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 a graddau targed ar ddechrau Cyfnodau Allweddol 4 a chyrsiau ôl-16 ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Rhoddir cyfle i'w newid am i fyny os oes angen yn yr ail flwyddyn o'r cyfnod allweddol yn unig. Defnyddir amrywiaeth o ddata gan gynnwys data darogan ALPS, sgoriau profion llythrennedd a rhifedd a data asesiadau blaenorol er mwyn sefydlu gwaelodlin cadarn ar gyfer llunio targed diwedd cyfnod allweddol.

3. Asesu yn Ysgol Bro Teifi

Yn Ysgol Bro Teifi, mae asesu yn digwydd drwy gyfuniad o ddulliau ffurfiannol a chrynodol:

3.1 Asesu ar gyfer dysgu (ffurfiannol)

Asesu ffurfiannol - mae athrawon a'r disgyblion yn defnyddio tystiolaeth i ddarganfod ble mae disgybl ar y continwwm dysgu, ble mae angen iddynt gyrraedd a sut maent yn mynd i gyrraedd yno. Mae asesu ffurfiannol yn osgoi marciau a graddau. (Asesu ar Gyfer Dysgu)

Dylai asesiadau ffurfiannol gael eu ymgorffori i mewn i gynllunio a threfn gwersi a ddylent fod wrth wraidd trafodaethau rhwng athrawon a disgyblion ynglŷn a sut gallant ddangos cynnydd. Dylid gweithredu ar y canlynol o fewn cynlluniau gwaith adrannau:

Rhannu amcanion dysgu a rhannu meini prawf llwyddiant gyda disgyblion

- Nodau ac amcanion dysgu yn glir ar ddechrau'r gwers – adolygiad gan yr athro a'r disgyblion ar y diwedd.
- Meini prawf llwyddiant wedi eu cysylltu a asesiadau ac wedi eu hysgrifennu mewn ffordd sydd yn ddealladwy i'r disgybl,

Defnyddio technegau cwestiynau effeithiol yn y dosbarth

- Gofyn cwestiynau agored
- Caniatáu amser meddwl cyn ateb
- Polisi dim dwylo i fyny
- Amrywio lefel y cwestiynu (Tacsonomeg Bloom)

Darparu adborth ysgrifenedig a/neu ar lafar safonol

- Dwy seren ac un dymuniad
- Defnyddio adborth ysgrifenedig yn unig – nid marciau a graddau
- Dangos sut gallant wella eu gwaith
- Cysylltu nol i'r amcanion asesu / meini prawf llwyddiant.

Hunan asesu ac asesu cyfoedion

- Darparu amser o fewn gwersi i hyfforddi disgyblion ar sut i asesu gwaith yn ôl meini prawf llwyddiant clir.
- Annog disgyblion i roi sylwadau caredig, adeiladol a phenodol pan yn asesu gwaith eu cyfoedion (CAP).
- Darparu cynlluniau marcio clir mewn iaith sy'n agored i lefel iaith y disgybl.
- Defnyddio taflenni hunan asesu i ddefnyddio ar ddiwedd pob asesiad/uned o waith.
- Darparu cwestiynau clir a dealladwy i'w helpu e.e.
    - Oedd amcanion y wers yn glir?
    - Beth oedd yn rhwydd ynglŷn â'r weithgaredd?
    - Beth oedd yn anodd yn y weithgaredd?

- Beth oedd yn gymorth i chi symud ymlaen?
- Oes angen mwy o gymorth arnoch chi?
- Ydych chi wedi dysgu rhywbeth newydd? Beth?
- Sut fyddech chi'n newid y gweithgarwch hwn?

***

3.2 Asesiad o'r Dysgu (crynodol)

Asesu crynodol yw'r dulliau asesu sy'n dangos llwyddiant disgybl ar ddiwedd cyfnod penodol ar hyd ei yrfa/gyrfa ysgol e.e. diwedd uned o waith, diwedd blwyddyn ysgol neu ar ddiwedd cyfnod allweddol. Mae'n cynnwys profion, aseiniadau, arholiadau, prosiectau a.y.b. Bydd asesiadau o'r fath yn derbyn lefel, gradd, marc neu ganran. Mae hwn yn ffurfio sail yr adroddiad i rieni. (Asesiad o'r Dysgu)

3.2.1 Asesu yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2

Defnyddir 'Proffil Cyfnod Sylfaen' fel arf o dracio sgiliau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, mae'r disgyblion o'r Meithrin i flwyddyn 6 yn cael eu tracio yn defnyddio arf 'Building Blocks', sydd yn tracio pob sgil a gyflwynir ym mhob gwers. Yn dymhorol mae'r athrawon yn bwydo lefelau pob disgybl i EhedLin drwy system SIMS yr ysgol. Mae EhedLin yn arf sydd nid yn unig yn dangos gallu'r disgybl ond hefyd cynnydd y disgyblion yn ystod eu cyfnod mewn addysg cynradd. Defnyddir yr arf ddiagnostig yn flynyddol ar ôl y Profion Cenedlaethol, gyda'r cydlynydd Rhifedd yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o flaenoriaethau a ddaw i'r amlwg yn sgil y canfyddiadau.

Bydd y cydlynydd asesu a'r UDA yn defnyddio'r data yma er mwyn:

- Monitro sut mae'r flwyddyn yn gwneud o ran dangosyddion perfformiad pwysig e.e canran o ddisgyblion sydd ar drac i gyrraedd Deilliant 4, Deilliant 5, Deilliant 6, perfformiad grwpiau o ddysgwyr a.y.b.)
- Mesur cynnydd disgyblion dros gyfnod o amser
- Gosod systemau ymyrraeth yn eu lle er mwyn codi safonau.

3.2.2 Asesu yng Nghyfnod Allweddol 3

Asesir cyrhaeddiad disgyblion ar ffurf Lefelau a Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. I'r testunau hynny lle nad oes lefel (e.e. Drama), gofynnir i'r adrannau ddatblygu system o feini prawf mewnol cyfatebol gan eu defnyddio mewn ystod debyg.

Mae'r ysgol yn gofyn am asesiad cyfamserol o leiaf deirgwaith y flwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 3 (dwy waith bob tymor) ynghyd â dau arholiad mewnol (Nadolig a Haf). Dylai

asesiadau cyfamserol gyfeirio at yr holl waith a gyflawnwyd yn y cyfnod hynny ers yr asesiad diwethaf ac nid ar un darn o waith yn unig. Mae'n bwysig nodi er yn grynodol yn ei natur, y bydd yr adborth a roddir i'r disgyblion am yr asesiadau yma yn ffurfiannol iawn.

Gofynnir i athrawon i gofnodi ar fas data tracio ysgol gyfan pa lefel y disgwylir i'r disgyblion i gyflawni ar ddiwedd y cyfnod allweddol ar sail eu perfformiad hyd yn hyn.

Bydd y cydlynydd asesu a'r UDA yn defnyddio'r data yma er mwyn:

- Monitro sut mae'r flwyddyn yn gwneud o ran dangosyddion perfformiad pwysig e.e canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd L5+,%L6+, %L7+, DPC CA3, perfformiad grwpiau o ddysgwyr a.y.b.)
- Gosod systemau ymyrraeth yn eu lle er mwyn codi safonau.

- **Bydd y penaethiaid ffês yn defnyddio'r data yma er mwyn:**

    - Adnabod disgyblion sydd yn tanberfformio er mwyn gosod strategaethau ymyrraeth yn eu lle.
    - Adnabod disgyblion sydd yn perfformio yn uwch na'r disgwyl er mwyn canmol y disgyblion.
    - Monitro cynnydd y disgyblion ar draws y pynciau

- **Bydd penaethiaid cyfadran yn defnyddio'r data er mwyn:**

    - Adnabod disgyblion sydd yn tanberfformio o fewn y pwnc.
    - Adnabod disgyblion sydd yn perfformio yn uwch na'r disgwyl o fewn y pwnc.
    - Adnabod agweddau pwysig sydd angen gwella e.e. % L7+ neu lleihau'r bwlch tlodi.

3.2.3 Asesu yng Nghyfnodau Allweddol 4 ac Ôl-16

Asesir cyrhaeddiad disgyblion yn unol a gofynion y byrddau arholi ar gyfer gofynion TGAU / BTEC / UG / SU o fewn y pwnc.

Mae'r ysgol yn gofyn am chwe asesiad cyfamserol ym mlwyddyn 10 a phedwar ym mlwyddyn 11. Bydd blwyddyn 12 a 13 yn derbyn pedwar asesiad crynodol yn ystod y flwyddyn. Dylai asesiadau cyfamserol gyfeirio at yr holl waith a gyflawnwyd yn y cyfnod hynny ers yr asesiad diwethaf ac nid ar un darn o waith yn unig. Mae'n bwysig nodi er yn gyfamserol yn ei natur, y bydd yr adborth a roddir i'r disgyblion am yr asesiadau crynodol yma yn ffurfiannol iawn.

Gofynnir i athrawon i gofnodi ar fas data tracio ysgol gyfan pa radd y disgwylir i'r disgyblion i gyflawni ar ddiwedd y cyfnod allweddol ar sail eu perfformiad hyd yn hyn.

- **Bydd y cydlynydd asesu a'r UDA yn defnyddio'r data yma er mwyn:**

- Monitro sut mae'r flwyddyn yn gwneud o ran dangosyddion perfformiad pwysig (Data SSSP, perfformiad pynciau unigol, perfformiad grwpiau o ddysgwyr a.y.b.)
- Gosod systemau ymyrraeth yn eu lle er mwyn codi safonau.

- **Bydd y penaethiaid Ffês yn defnyddio'r data yma er mwyn:**

  - Adnabod disgyblion sydd yn tanberfformio er mwyn gosod strategaethau ymyrraeth yn eu lle.
  - Adnabod disgyblion sydd yn perfformio yn uwch na'r disgwyl er mwyn canmol y disgyblion.
  - Monitro cynnydd y disgyblion ar draws y pynciau

- **Bydd penaethiaid cyfadran yn defnyddio'r data er mwyn:**

  - Adnabod disgyblion sydd yn tanberfformio o fewn y pwnc.
  - Adnabod disgyblion sydd yn perfformio yn uwch na'r disgwyl o fewn y pwnc.
  - Adnabod agweddau pwysig sydd angen gwella e.e. % A*-C neu lleihau'r bwlch tlodi.

3.4 Canllawiau arfer dda ar gyfer marcio gwaith/ llyfrau / ffeil disgybl

- Disgwylir y bydd llyfrau yn cael eu marcio **yn gyson** er bydd y cysondeb yn amrywio yn ddibynnol ar cyfaint y gwaith a gyflawnir.

- Wedi marcio'r llyfr, bydd yr athro yn sicrhau amser priodol i ddisgyblion i fyfyrio ar sylwadau'r athro ac i weithredu arnynt e.e. ail-ddrafftio, ymestyn ymateb a.y.b.

- Dylai athrawon annog disgyblion i ymateb yn adeiladol i'w sylwadau nhw er mwyn dadansoddi ymhellach sut y gallant wella eu gwaith.

4.Gosod Targedau

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, bydd yr UDA, phenaethiaid adran ac athrawon yn gosod targedau diwedd cyfnod i holl ddisgyblion yr ysgol.

4.1 Targedau Ysgol Gyfan

- Fel rhan o'r cynllun datblygu ysgol gyfan, bydd yr UDA yn nodi targedau heriol ond realistig ysgol gyfan ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad sef –

  CS - %D5, %D6 ar gyfer Cymraeg, Mathemateg a Datblygiad Personol a Chymdeithasol

  CA2 - % L4+, % L5+ ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

  CA3 - % L5+, % L6+, % L7+ ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

  CA4 - % Trothwy L1, % Trothwy L2, % Trothwy L2 + C/S + M, % DPC, Sgôr Bwyntiau wedi'i gapio, Bac Cenedlaethol a Bac Sylfaenol

  CA5- Uwch Gyfrannol - % A, %A -C, % A-E
  Safon Uwch -% A*-A, % A*-C, % A*-E

- Gwneir hyn ar draws cohort gyfan ac i grwpiau penodol o ddysgwyr e.e. PYD, ADY, a.y.b.

- Bydd y targedau yma yn seiliedig ar ragfynegiadau a wneir o ddata sydd gan yr ysgol, pherfformiad blaenorol a barn broffesiynol yr athro dosbarth/ pwnc.

4.2 Targedau Cyfadrannol

- Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd ac fel rhan o'r cynllun datblygu cyfadran bydd penaethiaid cyfadran yn nodi targedau heriol ond realistig ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad pynciol sef:

  CA2 - % L4+, % L5+

  CA3 - % L5+, % L6+, % L7+

  CA4 - % A*-A, % A*-C, % A*-G

  CA5- Uwch Gyfrannol - % A, %A -C, % A*-E
  Safon Uwch -% A*-A, % A*-C, % A*-E

- Bydd y targedau yma yn seiliedig ar ragfynegiadau a wneir o ddata yn bennaf ond bydd angen defnyddio'r holl ddata sydd ar gael ynghyd a barn broffesiynol yr athro wrth ddod i benderfyniad.

4.3 Targedau disgyblion unigol

- Ar gyfer pob pwnc, bydd pob disgybl yn derbyn deilliant, lefel neu radd darged ar gyfer diwedd y cyfnod allweddol.

- Ar ddechau'r flwyddyn academaidd darperir copi o lefelau/graddau targed i bob disgybl drwy law y cydlynydd asesu. Mae disgwyl i'r disgyblion i osod y daflen hon o fewn eu llyfrau cyswllt neu ei gofnodi.

- Bydd athrawon yn cofnodi cynnydd y disgybl ar fas data tracio yr ysgol yn ystod y flwyddyn wrth weithio tuag at y lefel/radd darged.

- Bydd yr UDA, penaethiaid adran a phenaethiaid Ffês yn defnyddio'r targedau yma fel sail i adolygu cynnydd y disgybl yn eu pynciau. Os canfyddir bod disgybl yn tangyflawni yna bydd strategaethau i fynd i'r afael a thangyflawni yn cael eu gweithredu.

5.4 Data Asesu

- Mae'r ysgol yn defnyddio'r data asesu canlynol ar gyfer gosod targedau a monitro cynnydd yn yr ysgol:

A. Asesiadau athrawon CS
B. Asesiadau athrawon CA2
C. Asesiadau athrawon CA3
D. Canlyniadau safonedig profion llythrennedd a rhifedd CA2/CA3
E. Adroddiadau ALPS
F. Data teulu ysgolion - Ffynnon
G. Canlyniadau Profion Diagnostig
H. Profion Diagnostig Pynciol
I. Canlyniadau arholiadau mewnol
J. Canlyniadau arholiadau allanol

4.4 Targedau Ffurfiannol

- Mae targedau ffurfiannol yn dargedau **SMART** (**S**besiffig, **M**esuradwy, **A**mcanion clir, **R**ealistig, **T**erfyn Amser).

- Dylai'r disgybl fod yn rhan annatod o'r broses o osod targedau a dylai eu mewnbwn gynyddu gydag oedran ac aeddfedrwydd.

- Gall y targed gyfeirio at wella perfformiad mewn asesiad crynodol ond gall hefyd gyfeirio at wella safon iaith, cyflwyniad y gwaith, dealltwriaeth o destun neu at ddatblygu sgil ymhellach.

- Ar adegau, gall ddisgyblion osod targedau sydd yn ymestyn ar draws nifer o bynciau e.e. anelu at gyrraedd graddau A*-C ymhob pwnc yn yr arholiadau TGAU neu gwella safon fy llawysgrifen yn fy ngwaith ysgrifenedig.

- Bydd athrawon pwnc a disgyblion yn gosod targedau ar yr adroddiadau llawn ar ddiwedd Tymor yr Haf ac yn eu cofnodi o fewn eu llyfrau cyswllt (Bl 5 i fyny)

- Bydd yr athro dosbarth yn monitro'r targedau yma yn dymhorol yn dilyn derbyn adroddiadau cyfamserol / tracio (Oed Uwchradd yn unig)

5 Cofnodi

5.1 Cofnodi Adrannol

- Bydd athrawon pwnc yn gyfrifol am gofnodi marciau asesiadau mewn llyfr marcio – naill ai yn electronig neu mewn llyfr marcio arferol.

- Yn ychwanegol, bydd cyfadrannau ac athrawon oed cynradd yn gyfrifol am gofnodi holl ganlyniadau asesiadau cyfamserol mewn ffurf electronig ar system SIMS/INCERTS a bydd mynediad iddo gan bob athro yn yr adran.

- Mae penaethiaid cyfadran yn gyfrifol am dracio cynnydd y disgybl a sicrhau'r camau priodol i fynd i'r afael a thangyflawni.

5.2 Bas Data Ysgol Gyfan

- Bydd athrawon yn adrodd yn ar gynnydd y disgybl wrth weithio tuag at y lefel/radd darged. Gwneir hyn ar system SIMS/ INCERTS. Gweler y ddogfen "Amserlen asesu, adroddiadau a thracio" am amserlen manwl.

- Bydd yr ysgol yn defnyddio system SIMS/INCERTS er mwyn cofnodi canlyniadau disgyblion mewn profion diagnostig. Bydd yr UDA, penaethiaid Ffês a phenaethiaid cyfadran yn gyfrifol am fonitro cynnydd y disgyblion.

- Gweler **3.2** am fanylion pellach.

6 Monitro a Safoni

6.1 Monitro ac Arfarnu

- Bydd penaethiaid cyfadran yn gyfrifol am weithredu'r polisi asesu hwn a'i ymgorffori i mewn i asesu o fewn eu cyfadrannau. Bydd Penaethiaid Cyfadrannol a Phenaethiaid ffês yn sicrhau drwy fonitro cyson, fod y polisi yn cael ei weithredu.

- Bydd athrawon, penaethiaid cyfadran a phenaethiaid Ffês yn gyfrifol am fonitro cynnydd disgyblion o ddydd i ddydd ac am ddadansoddi canlyniadau ymarferion tracio bob tymor.

- Bydd yr UDA yn gyfrifol am lunio rhaglen flynyddol o arfarniadau llyfrau/ffeiliau mewnol ac am drefnu rhaglen o arsylwadau o athrawon yn dysgu o fewn eu hadrannau.

- Bydd yr UDA yn gyfrifol am fonitro ac arfarnu cysondeb ar draws adrannau wrth weithredu'r polisi asesu. Gwneir hyn drwy dulliau canlynol:
    - Craffu ar lyfrau disgyblion
    - Arsylwi cyfnodau o addysgu
    - Teithiau Dysgu
    - Cyfweliadau gyda disgyblion
    - Trosolwg o gynlluniau gwaith a chynlluniau datblygu adrannol.
    - Dadansoddiad o ddata.

6.2 Gweithdrefnau Safoni a Chymedroli CS-CA4 ac ôl-16.

- Disgwylir i adrannau i gynnal cyfnodau o safoni a chymedroli gwaith disgyblion er mwyn sicrhau cysondeb o fewn cyfadrannau a chysondeb â gofynion cenedlaethol o fewn rhaglenni dysgu CS-CA3 a gofynion byrddau arholi CA4 ac ôl-16

- Er mwyn hwyluso'r broses o safoni ac i sicrhau cysondeb o fewn adrannau, dylai portffolio o waith sy'n cwrdd a gofynion y lefelau gwahanol yn y Cyfnod Sylfaen i fyny hyd at ddiwedd CA3 fod ar gael o fewn pob Ffês/cyfadran.

- Yn ogystal, dylai adrannau weithio tuag at creu portffolio o dystiolaeth o waith o wahanol raddau TGAU/UG/SU.

- Mae angen i benaethiaid cyfadran a phenaethiaid Ffês i fod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer asesiadau athrawon statudol ar gyfer diwedd cyfnod allweddol. Darperir copi caled o'r trefniadau cyfredol ym mlychau penaethiaid adran yn flynyddol.

7. Adrodd i Rieni

- Dylid cyfleu y wybodaeth i rieni mewn ffordd sydd mor eglur â phosibl.

- Rhoddir adroddiadau ysgrifenedig i'r rhieni unwaith y flwyddyn. Gwahoddir y rhieni i ddod i siarad â'r athrawon am gynnydd eu plant unwaith y flwyddyn ar Nosweithiau Rhieni (Oed Uwchradd) a dwywaith y flwyddyn (Oed Cynradd). Trefnir cyfarfodydd ychwanegol ar gais y rhiant neu'r ysgol e.e. mewn achosion o dangyflawni.

- Ar ddiwedd pob adroddiad, rhoddir cyfle i rieni i ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd o fewn yr adroddiad. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei ddychwelyd i benaethiaid Ffês.

7.1 Cwblhau adroddiadau

- Bydd pob adroddiad yn cael ei gwblhau ar system SIMS/Building Blocks

- Bydd y cydlynydd adroddiadau yn darparu canllawiau clir i athrawon ar ddechrau'r flwyddyn ar sut i gwblhau'r adroddiadau.

- Bydd athrawon yn gallu llenwi'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ond gosodir dyddiadau pendant ar galendr yr ysgol o bryd y bydd disgwyl i wahanol agweddau gael eu cwblhau.

- Cyfrifoldeb athrawon pwnc yw sicrhau cywirdeb o ran iaith a chynnwys pob adroddiad.

- Mae'r defnydd o fanciau sylwadau yn dderbyniol yn Ysgol Bro Teifi ond rhaid sicrhau bod y sylwadau yn cael eu gwirio gan aelod o'r UDA cyn y gellir mynd ymlaen i gwblhau'r adroddiad.

- Rhoddir mynediad i benaethiaid cyfadran i holl adroddiadau'r adran a disgwylir iddynt wirio **sampl** o adroddiadau **pob aelod** o staff o fewn yr adran.

- Bydd aelodau o'r UDA yn darllen pob adroddiad ac yn rhoi sylwadau byr ar gynnydd y disgybl cyn y bydd yn mynd allan i rieni. Disgwylir y bydd yr adroddiad yn gywir cyn cyrraedd y cam yma.

- Bydd aelodau y UDA yn darparu adborth byr i benaethiaid cyfadran / athrawon unigol ar ddiwedd y cyfnod adroddiadau yn nodi camau i'w cymryd er mwyn gwella safon yr adroddiadau os oes angen.

- Am fanylion pellach, gweler y ddogfen "Canllawiau cwblhau adroddiadau (ar gael yn ystod cylchoedd adrodd penodol)